# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 29 Medi 2016

Amser: 09.31 - 14.22

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://senedd.tv/cy/3732

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Dai Lloyd AC (Cadeirydd)<br>Jayne Bryant AC<br>Angela Burns AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Caroline Jones AC<br>Julie Morgan AC<br>Lynne Neagle AC |
| Tystion: | Tracy Myhill, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru<br>Richard Lee, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru<br>Dr Isolde Shore-Nye, Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol<br>Dr Jane Fenton-May, Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol Cymru<br>Suzanne Scott-Thomas, Cymdeithas Fferyllol Frenhinol |

| | |
|---|---|
| | Mair Davies, Cadeirydd, Cymdeithas Fferyllol Frenhinol<br>Professor Tayyeb Tahir, Coleg Brenhinol y Seiciatryddion<br>Dr Mair Parry, Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant<br>Neil Ayling, ADSS Cymru<br>Claire Marchant, ADSS Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Sarah Beasley (Clerc)<br>Claire Morris (Ail Glerc)<br>Sarah Sargent (Dirprwy Glerc)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Philippa Watkins (Ymchwilydd)<br>Dr Paul Worthington (Ymchwilydd) |

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 466KB) Gweld fel HTML (407KB)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.
2.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Dawn Bowden AC.

## 2 Ymchwiliad i barodrwydd ar gyfer y gaeaf 2016/17 – sesiwn dystiolaeth gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.
2.2 Cytunodd Tracy Myhill i roi data i'r Pwyllgor yn ymwneud â chynllun yr Ymddiriedolaeth i ymdrin â galwyr aml.

## 3 Ymchwiliad i barodrwydd ar gyfer y gaeaf 2016/17 - sesiwn dystiolaeth gyda Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol (RCGP) a'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol (RPS)

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Goleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol a'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol.

## 4 Ymchwiliad i barodrwydd ar gyfer y gaeaf 2016/17 - sesiwn dystiolaeth gyda Coleg Brenhinol y Seiciatryddion (RCPsych) a Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (RCPCH)

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Goleg Brenhinol y Seiciatryddion a'r Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant.
4.2 Cytunodd yr Athro Tahir i roi data i'r Pwyllgor yn ymwneud â sut mae derbyniadau i'r ysbyty yn effeithio ar gleifion â dementia; a data yn amlinellu sut mae rhai salwch iechyd meddwl yn gwaethygu yn ystod cyfnod y gaeaf.

## 5 Ymchwiliad i barodrwydd ar gyfer y gaeaf 2016/17 - sesiwn dystiolaeth gyda Chymdeithas y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol

5.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol.
5.2 Cytunodd Mr Ayling i ddarparu'r canlynol i'r Pwyllgor:

- data ynghylch y nifer sy'n manteisio ar y brechiad ffliw ymysg staff mewnol awdurdodau lleol a staff a gyflogir gan sefydliadau annibynnol sy'n gweithio yn y sector gofal cartref;
- tystiolaeth yn dangos lle mae'r Gronfa Gofal Canolradd wedi bod yn effeithiol o ran helpu i reoli galw a phwysau eraill ar draws y gwasanaethau gofal cymdeithasol;
- data yn ymwneud â nifer y gweithwyr a gyflogir yn y sector gofal cymdeithasol sydd o wledydd yr UE a gweldydd nad ydynt yn yr UE.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

6.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 7 Ymchwiliad i barodrwydd ar gyfer y gaeaf 2016/17 - trafod tystiolaeth a roddwyd yn ystod y cyfarfod heddiw

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a roddwyd yn ystod sesiynau'r dydd ar yr ymchwiliad i barodrwydd ar gyfer y gaeaf 2016/17.

### 7.1 Ymchwiliad i barodrwydd ar gyfer y gaeaf 2016/17: Ymatebion i'r Ymgynghoriad

## 8 Ystyried Flaenraglen Gwaith y Pwyllgor

8.1 Cafodd y Pwyllgor drafodaeth bellach ynghylch y flaenraglen waith ar gyfer tymor yr hydref.
8.2 Trafododd y Pwyllgor y cylch gorchwyl ar gyfer ymchwiliad byr i recriwtio meddygol a chytunodd arno. Bydd rhagor o fanylion a gwybodaeth am ymgynghoriad cyhoeddus yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Pwyllgor yn fuan.

## 9 Trafod Bil Cymru Llywodraeth y DU

9.1 Trafododd y Pwyllgor ei ymateb i Bwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar Fil Cymru Llywodraeth y DU a chytunodd ar yr ymateb hwnnw. Bydd yr ymateb yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Pwyllgor yn fuan.

## 10 Trafod Deiseb P-04-682 Sgrinio Rheolaidd ar gyfer Diabetes Math 1 mewn Plant a Phobl Ifanc

10.1 Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau a gofynnodd am rywfaint o wybodaeth gefndirol ychwanegol gan y Gwasanaeth Ymchwil cyn ystyried y mater ymhellach mewn cyfarfod diweddarach.

## 11 Trafod Deiseb P-04-532 Gwella Gwasanaethau Niwrogyhyrol Arbenigol yng Nghymru

11.1 Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau a gofynnodd am rywfaint o wybodaeth gefndirol ychwanegol gan y Gwasanaeth Ymchwil cyn ystyried y mater ymhellach mewn cyfarfod diweddarach.